
Diogelwch gwybodaeth M811

Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r gwaith o ddiogelu asedau gwybodaeth yn ategu hyfywedd a phroffidioldeb masnachol pob menter ac effeithiolrwydd sefydliadau'r sector cyhoeddus. Pan ddaw hi'n fater o ddiogelwch gwybodaeth, ni ddylid gadael y cyfan i ffawd. Yn hytrach, dylid ei reoli er mwyn sicrhau ei fod yn darparu camau diogelu effeithlon ac effeithiol ar gyfer asedau gwybodaeth sefydliad. Drwy weithio o fewn sefydliad sy'n gyfarwydd iddynt, mae M811 yn darparu cyflwyniad i ddiogelwch gwybodaeth yn dilyn cyfres safonau 27000 (yn enwedig 27001 a 27002) a dealltwriaeth manwl, ymarferol o agweddau dethol, gan gynnwys llywodraethiant TG a dadansoddi risg a rheoli diogelwch gwybodaeth. Bydd M811 yn berthnasol i'r rhai hynny sy'n gweithio mewn sefydliad sy'n canolbwyntio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar asedau gwybodaeth gwerthfawr. Bydd cwblhau M811 yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i fyfyrwyr gynllunio'r gwaith o weithredu system rheoli diogelwch gwybodaeth sy'n addas at y diben ar gyfer anghenion eu sefydliad.

At hynny, mae M811 yn cynnwys y 'meysydd' canlynol:

- Gwaith Ymchwil Diogelwch Gwybodaeth: lle cyflwynir sgiliau ymchwilio perthnasol i'r myfyriwr, megis darllen papur academiaidd neu ddechrau cronfa ddata llyfryddiaeth.
- Proffesiynoldeb: lle bydd y myfyriwr yn dysgu am y materion a'r cymwysterau proffesiynol sy'n ategu gyrfa mewn diogelwch gwybodaeth.
- Maes Personol: lle bydd y myfyriwr yn asesu ei sefyllfa gartref ar gyfer gwendidau posibl o ran diogelwch gwybodaeth;
- Maes Blaengar: lle bydd myfyrwyr yn cael mynediad at y syniadau mwyaf blaengar am Ddiogelwch Gwybodaeth drwy adnoddau ar y we.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad o Ddiogelwch Gwybodaeth ar lefel rheoli â dealltwriaeth fanwl o'r materion cymdeithasol, proffesiynol a thechnegol sylfaenol;
- gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth yn y pwnc hwn ac i osod y wybodaeth hon yng nghyd-destun ehangach rheoli Systemau Gwybodaeth.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- gradd ôl-raddedig berthnasol
- ymwybyddiaeth o Safonau a deddfwriaeth bresennol
- profiad o addysgu Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ar lefel ôl-raddedig
- profiad ar lefel rheoli o asesu risg, ym maes diogelwch gwybodaeth, a nodi datrysiadau technegol

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw'r fanyleb cyfrifiadur ofynnol ar gyfer y modiwl yn ddigon ar gyfer marcio aseiniadau'n electronig. Byddai'n well cael monitor mawr (17 modfedd, 256 lliw), ac efallai y bydd angen llawer mwy o ofod gwag ar eich disg na'r hyn a argymhellir ar gyfer myfyrwyr.

Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan

<i>Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:</i>	30
<i>Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:</i>	3
<i>Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:</i>	2
<i>Lefel y gofynion TGCh:</i>	3
<i>Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:</i>	20
<i>Band cyflog:</i>	4
<i>Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:</i>	6